

# BMJ Best Practice

# Canllaw dechrau arni



## Sut i gael mynediad


1. Ewch i **bestpractice.bmj.com**
2. Gallwch gael mynediad ar unwaith o rwydwaith GIG Cymru, neu rhowch eich enw defnyddiwr a chyfrinair OpenAthens a chliciwch 'Log in'*
3. Os ydych chi'n ddefnyddiwr newydd, bydd bellach angen i chi gofrestru i gael cyfrif personol BMJ Best Practice. Defnyddiwch eich cyfrif personol i lawrlwytho'r ap er mwyn cael mynediad o unrhyw le, unrhyw bryd, hyd yn oed all-lein.

*Os bydd angen help arnoch gyda'ch cyfrif OpenAthens GIG Cymru neu i greu eich cyfrif BMJ Best Practice, ewch i eli.gig.cymru/mewngofnodi neu cysylltwch â'ch llyfrgell leol..

## Lawrlwythwch ap BMJ Best Practice

- Chwiliwch am 'BMJ Best Practice', cliciwch 'download' a rhowch fanylion eich cyfrif personol i fewngofnodi.
- Mae'r ap yn gweithio all-lein, felly gallwch gael gafael ar gynnwys clinigol ble bynnag a phryd bynnag yr hoffech chi!

**Angen help?** Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm cymorth yn:
**support@bmj.com | +44 (0) 20 7111 1105**





**Sganiwch i ddechrau arni**

# Eich canllaw arbenigol ar ddiagnosis, prognosis, triniaeth ac atal, o unrhyw le, unrhyw bryd

- Miloedd o byncïau clinigol a mwy na 6,000 o ganllawiau clinigol y gellir chwilio drwyddynt
- Fideos wedi'u hanimeiddio o driniaethau meddygol a llawfeddygol
- 500+ o daflenni i gleifion sy'n rhoi crynodebau byr a hawdd eu deall
- Diweddariadau Pwysig ac Atebion Clinigol Cochrane wedi'u hamlygu o fewn pob pwnc
- Datblygiad proffesiynol parhaus, gyda thracio awtomatig ar gyfer Addysg Feddygol Barhaus/Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Canllawiau ar bresgripsiynau yn seiliedig ar BNF, BNFC a mwy na 250 o gyfrifianellau meddygol
- Canllawiau cam wrth gam drwy ein tablau algorithm triniaeth unigryw
- Mynediad o unrhyw le, ar-lein ac all-lein, gan ddefnyddio ap BMJ Best Practice

## Rheolwr Cydafiacheddau ar gael o fewn BMJ Best Practice

- Mae'r Rheolwr Cydafiacheddau yn helpu i reoli'r claf cyfan drwy roi canllawiau ar sut i drin cyflyrau acíwt ochr yn ochr â chydafiacheddau a oedd gan y claf eisoes.
- Gallwch ddewis o blith amrywiaeth o gydafiacheddau cyffredin ac uchel eu cost er mwyn llunio cynllun triniaeth ar unwaith, wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigryw'r claf.
- Mae'r Rheolwr Cydafiacheddau yn ei gwneud hi'n hawdd trin a sefydlogi cleifion sydd â chydafiacheddau yn gyflym. Mae'r dull hwn o reoli'r claf yn effeithiol yn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd gofal, gan arwain yn y pen draw at well canlyniadau clinigol, cyfnodau byrrach yn yr ysbyty, a llai o achosion o aildderbyn cleifion i'r ysbyty.




### Dilynwch y camau hyn i'w ddefnyddio

1. Ar ôl mewngofnodi i BMJ Best Practice, cliciwch ar yr eicon 'Comorbidities' yn y bar llywio glas ar dudalen hafan BMJ Best Practice i weld rhestr o'r holl byncïau acíwt sydd yn y Rheolwr Cydafiacheddau.
2. Dewiswch bwnc acíwt o'r rhestr. Byddwn yn ychwanegu rhagor o byncïau at y rhestr drwy'r amser, felly cadwch olwg arni'n rheolaidd.
3. Llywiwch i adran 'Treatment algorithm' y pwnc acíwt o'ch dewis. Mae'r symbol C+ pinc yn dangos bod y Rheolwr Cydafiacheddau ar gael ar gyfer y pwnc dan sylw.
4. Dewiswch o restr o gydafiacheddau cyffredin. Gallwch ddewis cynifer o gydafiacheddau ag yr hoffech chi. Byddwch yn gweld y symbol C+ pinc pan fydd modd i'r cydafiacheddau sydd wedi'u dewis effeithio ar yr opsiwn triniaeth.

**Sganiwch i ddechrau arni**